Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

At: Jenny Rathbone AS

Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru

**Trwy e-bost yn unig**

3 Mai 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr yn tynnu sylw at adroddiad diweddar y Pwyllgor sy'n trafod pobl ifanc, anghenion iaith a lleferydd a'r system cyfiawnder troseddol. Hoffwn ddiolch i chi a'r pwyllgor am fwrw goleuni ar y mater pwysig hwn.

Ni fyddem am ddyblygu eich gwaith wrth ymateb i'r mater hwn, ond byddem ni'n barod i ysgrifennu at y bwrdd cyfiawnder ieuenctid a/neu fyrddau partneriaeth rhanbarthol i rannu'r bylchau mae eich adroddiad yn eu hamlygu, os nad yw'r pwyllgor eisoes wedi gwneud hynny. Mae'r materion mae'r pwyllgor yn eu codi yn cyd-fynd ag adroddiadau *Dim Drws Anghywir* fy swyddfa yn 2020 a 2022.

Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen ymateb Llywodraeth Cymru i'ch argymhellion.

Fel rhan o loywi ein strategaeth ymgysylltu, byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid neu mewn perygl o fynd iddi, gan sicrhau eu bod yn gwybod am eu hawliau, a mynd ar ôl unrhyw faterion maen nhw neu'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw yn eu codi gyda ni.

Dymuniadau gorau,

Rocio

Rocio Cifuentes MBE

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr
Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats